Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH OEDOLION A PHOBL HŶN:

# Aros yn Iach Gartref

**Er mwyn galluogi i bobl hŷn aros yn iach gartref cyhyd â phosibl.**

Rydyn ni eisiau i bobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia gael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartrefi cyhyd â phosibl neu ddychwelyd adref yn gyflym ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

I gyflawni hyn, byddwn ni'n gweithio tuag at:

- Gwella parhad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir i bobl hŷn.
- Gwella dewis ac ymdeimlad o reolaeth o ran sut, ble a phryd y maent yn cael cymorth gan wasanaethau.
- Gwella mynediad at wybodaeth berthnasol fel bod pobl hŷn yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael cyn i anghenion waethygu.



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL HŶN?

Hoffai pobl hŷn gael cymorth i wneud dewisiadau ble gallant, fel eu bod nhw'n teimlo bod ganddynt ymdeimlad o reolaeth a pherchnogaeth dros eu bywydau.

Hoffen nhw allu cymryd rhan mewn sgyrsiau pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty, fel y gallant sicrhau bod y cynlluniau angenrheidiol ar waith i helpu i drosglwyddo yn ôl adref.

Hoffen nhw gael mwy o gymorth i aros yn iach gartref, gan gynnwys gwybodaeth hygyrch am y cymorth sydd ar gael, a gwasanaethau lleol arbenigol i ddiwallu anghenion.



## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweithredu Model Optimwm Rhanbarthol ar gyfer Cwm Taf Morgannwg.
- Datblygu a gweithredu ymhellach ein dull integredig o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn.
- Datblygu a gweithredu ymagwedd ranbarthol at Atal Cwympo.
- Ehangu Modelau Aseswyr Dibynadwy.
- Cyflawni'r uchelgais o 'Ymhellach yn Gynt' i adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig i Gymru.
- Cefnogi datblygiadau hybiau cymunedol pellach.

## DYWEDODD POBL

Sut fydda i'n ariannu'r cymorth sydd ei angen arnaf?"

"Dyw fy nghartref ddim yr un peth – mae'r lle wedi newid."

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Lleihau derbyniadau gofal heb ei drefnu ar gyfer pobl dros 65 oed.
- Lleihau'r amser a dreulir mewn ysbyty acíwt yn dilyn derbyniad gofal heb ei drefnu ar gyfer pobl dros 65 oed.